**LC621**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif Orchymyn fel yr amlinellir ym mharagraffau (1) a (2) o'r nodyn esboniadol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau**

Mae'r diwygiadau a wnaed i Orchymyn 1998 yn adlewyrchu'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer Lloegr. Felly, tra bo gorchymyn Lloegr yn rhoi “the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs” yn lle “the Minister” mae'r gorchymyn presennol yn rhoi "Cynulliad Cenedlaethol Cymru". Mae hyn yn gydnaws â'r cynnig mai dim ond ar gyfer ei thiriogaeth ei hun y gall llywodraeth wneud deddfwriaeth. Fodd bynnag, o ystyried mai dim ond dwy erthygl sydd yn y prif orchymyn (yn ogystal â'r Atodlen sy'n cael ei disodli beth bynnag) efallai y byddai'n well petai gorchymyn cwbl newydd wedi'i wneud ar gyfer Cymru. Byddai hyn wedi osgoi'r drafferth sy'n codi trwy fod gan orchymyn 1998 destunau gwahanol yng Nghymru ac yn Lloegr erbyn hyn.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Chwefror 2003